

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.



Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben

i bobl a anwyd ar ôl
8 Ebrill 1948 ac sy'n
16 oed neu'n hŷn

Mwy o wybodaeth am DLA yn dod i ben a
hawlio Taliad Annibyniaeth Personol

dla-ending.campaign.gov.uk

Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben ar gyfer pobl a anwyd ar ôl 8 Ebrill 1948 ac ar gyfer pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn

Mae Lwfans Byw i'r Anabl, a elwir hefyd yn DLA, yn dod i ben am y rhan fwyaf o bobl. Mae budd-dal a elwir yn Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) wedi cael ei gyflwyno i helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol os oes gennych gyflwr iechyd neu anabledd hirdymor.

Byddwn yn ysgrifennu atoch os ydych yn cael DLA ac wedi eich geni ar ôl 8 Ebrill 1948 ac yn 16 oed neu'n hŷn, yn eich gwahodd i wneud cais am PIP. Nid ydym yn ysgrifennu at bawb ar yr un pryd, bydd hyn yn digwydd dros nifer o flynyddoedd o 8 Ebrill 2013 (y diwrnod cafodd PIP ei gyflwyno).

Ni fyddwch yn cael PIP yn awtomatig os ydych yn cael DLA, hyd yn oed os oes gennych ddyfarniad amhenodol neu hirdymor oherwydd bod PIP yn fudd-dal gwahanol, ac yn cael ei asesu mewn ffordd wahanol. Efallai y bydd y swm a gewch yn newid hefyd.

Pwysig

Ni chewch eich effeithio gan y newid hwn a byddwch yn parhau i gael DLA os:

- cawsoch eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948; neu
- rydych o dan 16 oed.

Lle y bydd plentyn dan 16 oed yn cael DLA, byddant yn cael ei wahodd i wneud cais am PIP pan fyddant yn cyrraedd 16 oed.

Nid oes angen cymryd unrhyw gamau hyd nes y byddwn yn ysgrifennu atoch. Oni bai y bydd eich anghenion yn newid neu y bu newid yn eich amgylchiadau.

Beth fydd yn digwydd?

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ysgrifennu i ddweud wrthy ch am bryd y bydd eich DLA yn dod i ben.

Bydd y llythyr yn eich gwahodd i wneud cais am PIP ac yn dweud wrthy ch beth i'w wneud nesaf. Byddwn yn anfon llythyr atgoffa rhag ofn i chi golli'r un cyntaf.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Unwaith y byddwch yn cael eich llythyr, bydd angen i chi benderfynu a ydych am wneud cais am PIP. Bydd gennych 28 diwrnod i'r dyddiad ar y llythyr i wneud cais.

Oherwydd ni fyddwch yn gallu dewis cadw DLA, mae'n werth cael gwybodaeth am hawlio PIP. Cewch o hyd i fwy o wybodaeth yn y daflen hon neu ewch i **www.gov.uk/pip**

Os nad ydych am wneud cais am PIP, gall budd-daliadau neu gynlluniau eraill rydych chi neu'ch gofalwr yn eu cael, fel Symudedd neu Lwfans Gofalwr hefyd newid neu'n dod i ben.

Gallech gysylltu â **sefydliad cymorth lleol** a all roi help a chymorth annibynnol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion ar-lein, yn eich llyfrgell leol neu yn y llyfr ffôn.

Pwysig

Nid oes angen i chi gysylltu â ni hyd nes y byddwn yn ysgrifennu atoch oni bai bod angen i chi ddweud wrthym am newid yn eich anghenion neu y bu newid yn eich amgylchiadau. Dywedwch wrthym os yw eich manylion cyswllt wedi newid. Os nad oes gennym eich cyfeiriad presennol, gallech methu eich llythyr.

Beth yw PIP?

Mae PIP yn helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol os oes gennych gyflwr iechyd neu anabledd hirdymor ac yn wynebu anawsterau gyda bywyd bob dydd, symudedd neu'r ddau.

Ar gyfer pwy y mae PIP?

Mae PIP ar gyfer pobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd hirdymor sydd:

- rhwng 16 a 64 oed; neu'n
- cael DLA ac yn 64 oed neu'n iau ar 8 Ebrill 2013 (y diwrnod cafodd PIP ei gyflwyno) ac maent bellach yn 65 oed neu'n hŷn.

Nid oes rhaid i'ch cyflwr iechyd neu'ch anabledd fod yn barhaol ond rhaid i chi fod wedi cael yr anawsterau hyn am 3 mis ac yn disgwyl iddynt barhau am o leiaf 9 mis, oni bai bod gennych salwch terfynol.

Gallwch gael PIP os ydych mewn neu allan o waith ac mae'n ddi-dreth. Gallwch hefyd gael PIP os ydych mewn addysg neu hyfforddiant.

Er mwyn cael PIP mae'n rhaid i chi:

- bod ym Mhrydain Fawr ar hyn o bryd, ac wedi bod ym Mhrydain Fawr am o leiaf 2 o'r 3 blynedd diwethaf - mae yna rai eithriadau i'r amodau hyn ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog EM a'u teuluoedd neu os ydych yn byw mewn neu'n dod o wlad arall yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir
- fel arfer yn byw yn y DU, Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel
- peidio â bod yn destun rheolaeth mewnfudo (oni bai eich bod yn fewnfudwr noddedig).

Sut mae PIP yn wahanol i DLA

Beth sydd heb newid?

Mae DLA a PIP:

- yn fudd-daliadau arian ddi-brawf modd a di-dreth
- yn fudd-daliadau y gallwch eu hawlio os ydych mewn neu allan o waith, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu mewn addysg neu hyfforddiant
- yn gysylltiedig â chael budd-daliadau a chymorth arall – fel Lwfans Gofalwr a'r cynllun Bathodyn Glas
- gyda rheolau arbennig os oes gennych salwch terfynol.

Beth sydd wedi newid?

- mae PIP yn cael ei asesu ar feini prawf gwahanol i DLA - mae ganddi system bwyntiau sy'n ymwneud â'r help sydd ei angen arnoch gyda gweithgareddau bywyd bob dydd a symudedd
- Os ydych yn gwneud cais am PIP, bydd eich anghenion yn cael eu hasesu gan weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol. Bydd hyn fel arfer yn digwydd wyneb yn wyneb
- Bydd y rhan fwyaf o ddyfarniadau PIP am gyfnod penodol a byddant yn cael eu hadolygu.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn hawlio PIP?

1



Byddwch yn cael llythyr yn dweud wrthych y bydd eich DLA yn dod i ben.

Darllenwch yr holl wybodaeth i benderfynu a ydych am wneud cais am PIP.



Os byddwch yn dewis gwneud cais, cysylltwch â ni i ddechrau'r broses a byddwn yn anfon ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' atoch.

2



Llenwch y ffurflen i ddweud wrthym am sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd a'i dychwelyd atom gyda'ch tystiolaeth ategol.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen, gallwch ofyn i ffrind, perthynas neu sefydliad cymorth lleol.



Byddwn yn gofyn i weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol edrych ar eich ffurflen a'r dystiolaeth ategol i helpu gweithio allan y lefel o gymorth sydd ei angen arnoch.

3



Efallai y gofynnir i chi fynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol annibynnol.

Byddwch yn gallu mynd â rhywun gyda chi i'ch ymgynghoriad.



Yna, byddwn yn gwneud penderfyniad ar eich cais.

Sut mae PIP yn cael ei weithio allan?

Mae PIP yn cynnwys 2 rhan:

- bywyd bob dydd - am help i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd
- symudedd - ar gyfer help gyda symud o gwmpas.

Gallwch gael eich talu naill ai'r rhan bywyd bob dydd neu'r rhan symudedd ar ei ben ei hun, neu'r ddau ar yr un pryd.

Efallai y byddwch yn cael y rhan bywyd bob dydd os oes angen help arnoch gyda phethau fel:

- paratoi bwyd
- bwyta ac yfed
- ymolchi a chael bath
- rheoli anghenion toiled
- gwisgo a dadwisgo
- cyfathrebu ar lafar
- darllen a deall arwyddion, symbolau a geiriau
- rheoli eich meddyginiaethau neu driniaethau
- gwneud penderfyniadau am arian
- cymysgu gyda phobl eraill wyneb yn wyneb.

Efallai y byddwch yn cael y rhan symudedd os bydd angen help arnoch i fynd allan neu symud o gwmpas.

Mae pob rhan yn cael ei dalu ar ddwy lefel wahanol: 'cyfradd safonol' a 'cyfradd uwch'.

Mae'r gyfradd rydych yn cael eich talu yn dibynnu os yw eich gallu i gyflawni gweithgareddau bywyd bob dydd neu symudedd yn 'cyfyngedig' neu 'cyfyngedig iawn'.

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU, ni fyddwch yn gallu cael y rhan symudedd o PIP. Gallwch ond gael help gyda'ch anghenion bywyd bob dydd.

Sut mae lefel y cymorth yn cael ei weithio allan?

Ar gyfer y rhan bywyd bob dydd a'r rhan symudedd, mae rhestr o 'disgrifwyr'. Mae disgrifwyr yn frawddegau sy'n disgrifio faint o gymorth, a'r math o gymorth, sydd ei angen arnoch i wneud gwahanol weithgareddau. Mae gan bob disgrifydd sgôr pwyntiau.

Bydd y nifer o bwyntiau a gewch yn dibynnu ar faint o gymorth sydd ei angen arnoch. Bydd eich sgôr ar gyfer y gweithgareddau yn cael ei ychwanegu at ei gilydd i roi cyfanswm ar gyfer y rhan bywyd bob dydd a symudedd.

Byddwch yn cael y mwyaf o bwyntiau os na allwch wneud y gweithgaredd o gwbl.

Cewch rai pwyntiau os oes angen offer arbennig arnoch, neu os oes angen anogaeth, goruchwyliaeth neu help gan berson arall i wneud y gweithgaredd.

Ni chewch unrhyw bwyntiau os gallwch wneud y gweithgaredd yn ddiogel, i safon dderbyniol, mor aml ag sydd ei angen arnoch ac mewn amser rhesymol heb unrhyw gymorth.

Cyfanswm y sgôr	Rhan bywyd bob dydd	Rhan symudedd
12 neu fwy o bwyntiau	Cyfradd uwch	Cyfradd uwch
8 i 11 pwynt	Cyfradd safonol	Cyfradd safonol
Llai na 8 pwynt	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Sut ydych yn cael eich asesu

Mae'r ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' (a elwir hefyd yn PIP2W) yn gyfle i chi egluro sut mae eich cyflwr neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd, ar ddiwrnod da a diwrnod drwg ac ar draws ystod o weithgareddau.

Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol annibynnol yn edrych ar eich ffurflen, ac unrhyw dystiolaeth ategol a anfonwch. Bydd hyn yn helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio allan y lefel o help y gallwch ei gael yn seiliedig ar y cymorth sydd ei angen arnoch ar gyfer bywyd bob dydd.

Sut ydych yn cael eich asesu (parhau)

Efallai y gofynnir i chi hefyd fynychu ymgynghoriad wyneb yn wyneb i'n helpu i ddeall yn llawn sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Os oes angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb arnoch, byddwch fel arfer yn clywed gennym tua 4 wythnos ar ôl anfon eich ffurflen.

Beth yw ymgynghoriad wyneb yn wyneb?

Mae ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn cyfarfod gyda gweithiwr iechyd proffesiynol mewn canolfan asesu neu o bosibl yn eich cartref. Byddant yn gofyn cwestiynau am eich gallu i gyflawni gweithgareddau a gofyn i chi am ragor o wybodaeth am sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.

Fel arfer bydd yn para tuag awr. Fodd bynnag, os yw eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn arbennig o gymhleth, gall gymryd ychydig yn hirach.

Byddwch yn cael cymaint o amser ag sydd ei angen arnoch i helpu'r gweithiwr iechyd proffesiynol deall sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.

Gallwch gymryd rhywun arall gyda chi i'r ymgynghoriad pe byddech yn ei chael yn ddefnyddiol.

Tystiolaeth Ategol

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi i ni unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth berthnasol sydd gennych eisoes sy'n egluro eich amgylchiadau.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rhestrau presgripsiwn, cynlluniau gofal, adroddiadau neu wybodaeth gan weithwyr proffesiynol fel Meddyg Teulu, meddyg yn yr ysbyty, nyrs arbenigol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, gweithiwr cymorth neu ymgynghorydd.

Peidiwch â gofyn am ddogfennau eraill a allai arafu eich cais neu y codir tâl arnoch - er enghraifft, gan eich Meddyg Teulu. Os bydd angen y dystiolaeth hon, byddwn yn gofyn amdani ein hunain.

Os oes gennych salwch terfynol

Gallwch gael PIP yn gyflymach os nad oes disgwyl i chi fyw am fwy na 6 mis. Mae gwasanaeth ffôn penodol pan fyddwch yn ffonio i wneud cais i helpu cyflymu'r broses hawlio. Ni fydd angen i chi gwblhau'r ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' neu fynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/pip/how-to-claim

Byddwch yn cael y rhan bywyd bob dydd uwch os nad oes disgwyl i chi fyw am fwy na 6 mis. Mae cyfradd y rhan symudedd yn dibynnu ar eich anghenion.

Ein penderfyniad

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud y penderfyniad am eich cais yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad, eich cais ac unrhyw dystiolaeth ategol rydych yn ei gynnwys.

Byddwch fel arfer yn cael penderfyniad 3 wythnos ar ôl eich asesiad, p'un a yw eich asesiad yn cynnwys ymgynghoriad wyneb yn wyneb neu beidio.

Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn iddo gael ei edrych arno eto - bydd eich llythyr penderfyniad yn dweud wrthyich sut.

Yr hyn a gewch os ydych yn gymwys i gael PIP

Y gyfradd wythnosol ar gyfer y rhan bywyd bob dydd PIP yw naill ai £55.65 neu £83.10 a'r gyfradd wythnosol ar gyfer y rhan symudedd PIP yw naill ai £22.00 neu £58.00*.

Fel arfer, mae PIP yn cael ei dalu bob 4 wythnos.

I wneud yn siŵr eich bod yn parhau i gael y lefel gywir o gymorth, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os oes newid yn y ffordd y mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Byddwn hefyd fel arfer yn cysylltu â chi tra'ch bod yn cael PIP i weld a yw eich anghenion wedi newid ac i adolygu'r swm a gewch.

Sut rydych yn cael eich talu

Mae pob budd-dal, pensiwn a lwfans yn cael ei dalu i gyfrif, er enghraifft cyfrif banc.

Help ariannol arall

Efallai y byddwch chi neu'ch gofalwr hefyd yn gymwys i gael cymorth ariannol arall - er enghraifft Lwfans Gofalwr, neu help gyda chostau tai, cludiant neu gostau sy'n gysylltiedig â gwaith. I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/financial-help-disabled**

**Dyma'r symiau ar gyfer 2017-18. Adolygir cyfraddau budd-dal bob blwyddyn.*

Newid mewn amgylchiadau

Gall eich amgylchiadau effeithio ar faint y byddwch yn ei gael. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os oes gennych newid yn unrhyw un o'r canlynol:

- y cymorth sydd ei angen arnoch neu y bydd eich cyflwr yn newid
- byddwch yn mynd i'r ysbyty neu gartref gofal
- os ydych yn bwriadu gadael y wlad am fwy na 13 wythnos
- rydych yn cael eich carcharu neu ei ddal yn y ddalfa.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym hefyd os byddwch yn newid eich enw, cyfeiriad neu'ch manylion banc.

I ddweud wrthym am eich newidiadau, cysylltwch â'n llinell gymorth. Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.gov.uk/disability-benefits-helpline



I gael mwy o wybodaeth am DLA yn dod i ben a PIP, ewch i:

dla-ending.campaign.gov.uk

ISBN: 978-1-78425-922-8

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar fis Ebrill 2017. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.